

*Cynllun Tymor
i Rieni Cyfnod Sylfaen*



*Dosbarthiadau
Meithrin a Derbyn:
Miss Morris
Mrs Davies*

Tymor yr Haf 2022



Thema: Sblish Sblash Sblosh

Y Chwe Maes Dysgu:

Iechyd a Lles: Bydd iechyd a lles y plant wrth wraidd ein gweithgareddau dosbarth. Byddwn yn rhoi sylw i ddiogelwch a hylendid yn ogystal â datblygu hyder y plant. Yn ystod amseroedd cylch byddwn yn annog y plant i fynegi eu teimladau a'u hemosiynau. Athletau, symudiadau a gemau iard chwarae fydd cynnwys ein gwersi P. E. ac edrychwn ymlaen at ddysgu pwysigrwydd ymlacio i'r plant yn ogystal â gweld eu hochr gystadleuol wrth gystadlu yn y mabolgampau!



Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu: Does dim teimlad gwell na gweld y plant yn dysgu'r Gymraeg ac yn syrthio mewn cariad â'i diwylliant. Rydym yn hyrwyddo hyn drwy amrywiaeth o weithgareddau o ganu i ddysgu ymadroddion Cymraeg wythnosol. Rydym yn defnyddio rhaglenni ffoneg fel 'Tric a Chlic' i ddatblygu sgiliau darllen y plant ac rydym yn rhoi tasgau darllen uwch i'r plant hŷn yn yr adran. Mae mynd i fyd dychmygus y plant yn bwysig iawn i ni

i'w hysgogi i ysgrifennu ac rydym yn manteisio ar bob cyfle i'r plant ddefnyddio gwahanol ffurfiau ysgrifennu a gweithio'n drawsgricwlaidd mewn gwaith thematig. Rydym hefyd yn dysgu'r plant i gyfathrebu drwy Makaton ac rydym yn canolbwyntio ar arwydd newydd bob wythnos.



Mathemateg a Rhifedd: Byddwn yn canolbwyntio ar ddatblygu cydnabyddiaeth a dealltwriaeth y plant o werth rhifau, dilyniannu rhifau ac ychwanegu a thynnu gyda'r plant hŷn y tymor hwn. Byddwn yn manteisio ar bob cyfle i'r plant weithio'n ymarferol, yn drawsgrwicwlaidd ac i ddysgu drwy chwarae. Byddwn yn trin arian yn y 'Siop hyfen iâ' i gyfrif coesau yr octapws!



Y Celfyddydau Mynegiannol: Fel y mae'r dywedriad yn mynd; 'canu sy'n bwydo'r enaid' a byddwn yn canu caneuon thematig, yn chwarae gemau cerddorol ac yn dysgu caneuon o'r rhaglen 'croesi'r bont'. Bydden nhw'n creu offerynnau sy'n creu synau dŵr a gwranddo ar darnau o wahanol gerddoriaeth yn dilyn y thema dŵr. Byddwn yn dynwared gwaith artistiaid enwog fel Claude Monet yn ogystal ag arbrofi'n greadigol wrth wneud celf a chrefft.

Gwyddoniaeth a Thechnoleg: Mae Sali Sws angen help i ddysgu am y byd a'i chynefin! Byddwn yn dysgu am ailgylchu a sut i helpu gwella yr ardal leol. Byddwn yn tanio chwilfrydedd y plant ac yn meithrin eu gallu i ddysgu'n annibynnol drwy amrywiaeth o weithgareddau, ymchwiliadau ac arbrofion cyffrous. Byddwn yn cymhwyso'r fframwaith cymhwysedd digidol drwy weithgareddau fel casglu data, codio, creu a golygu a dysgu am ddiogelwch arlein.

Dyniaethau: Edrychwn ymlaen at ddysgu a gwerthfawrogi'r byd o'n cwmpas wrth i ni ddysgu am yr anifeiliad mewn perygl. Byddwn yn manteisio ar bob cyfle i ddysgu yn yr ardal awyr agored a byddwn yn datblygu ystod o sgiliau sy'n drawsgrwicwlaidd yn Ysgol y Goedwig. Byddwn yn dathlu amrywiaeth o ddiwylliannau a chrefyddau trwy storïau a chaneuon.



Y Pedwar Diben

Bydd y Cwricwlwm Newydd yn rhoi y sylfaen sydd ei angen ar blant i lwyddo mewn byd sy'n newid. Mae'r cwricwlwm yn newid i helpu pobl ifanc i fod yn fwy hyblyg, eu cymell i barhau i ddysgu sgiliau newydd wrth i fywyd a'r byd newid o'u cwmpas.

Y nod yw cefnogi plant a phobl ifanc i fod:

- yn ddysgwyr uchelgeisiol, galluog
- yn gyfranwyr metrus, creadigol
- yn ddinasyddion egwyddorol, gwybodus
- yn unigolion iach, hyderus

Bydd yr agweddau uchod yn cael sylw blaenllaw yn ein cynlluniau ac rydym yn teimlo'n eiddgar ac yn hyderus y gallwn feithrin y sgiliau hyn yn ein plant.

I wybod mwy am y Cwricwlwm Newydd, sganiwch y côd isod:



Os hoffech unrhyw wybodaeth pellach, mae croeso i chi ebostio athrawes dosbarth eich

